OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1265 (Cy.158)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*9 Mai 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Mai 2012*
Yn dod i rym - -	*2 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 64H(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 2 Mehefin 2012.

Diwygio Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008

2.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 40 (tystysgrifau ar gyfer rhoi triniaeth)—

(a) ym mharagraff (4) ar ôl "Ffurflen CO 7" mewnosoder "ac eithrio pan fo paragraff (5) yn gymwys"; a

(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Pan fo awdurdod i roi triniaeth i glaf yn rhinwedd adrannau 64C(2)(a) neu 64E(6)(a), rhaid i'r dystysgrif sy'n ofynnol at ddibenion adrannau 64B(2)(b) a 64E(2)(b) fod ar y ffurf a osodir yn Ffurflen CO 8."

(3) Yn Atodlen 1 (ffurflenni)—

(a) yn Ffurflen HO 15 (Deddf Iechyd Meddwl 1983 adran 20 — adnewyddu'r awdurdod i roi dan gadwad)—

(**1**) 1983 p.20. Mewnosodwyd adran 64H gan adran 35(1) o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (2007 p.12) ac fe'i diwygiwyd gan adran 299 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (2012 p.7).

(**2**) O.S. 2008/2439 (Cy.212).